ATODLEN

Rheoliad 3

# RHAN 1

## HEREDITAMENTAU CAMLESI

*Person dynodedig*

Bwrdd Ffyrdd Dŵr Prydain

*Hereditamentau perthnasol*

Yr hereditament a ddisgrifir yn rheoliad 5(2) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994

# RHAN 2

## HEREDITAMENTAU CYFLENWI TRYDAN

*Person dynodedig*

The National Grid Company plc

*Hereditamentau perthnasol*

Hereditamentau (ar wahân i hereditamentau a eithrir) a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at drawsffurfio neu drawsyrru pŵer trydanol, neu at ddibenion ategol

*Person dynodedig*

Manweb plc

Midlands Electricity plc

South Wales Electricity plc

*Hereditamentau perthnasol*

Hereditamentau (ar wahân i hereditamentau a eithrir) a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at swyddogaethau cyflenwr trydan cyhoeddus, neu at ddibenion ategol

Yn y Rhan hon—

ystyr “hereditament a eithrir” yw hereditament sy'n cynnwys tir ac adeiladau a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf—

(a) fel siop neu le arall ar gyfer gwerthu, arddangos neu ddangos cyfarpar neu atodion at ddefnydd defnyddwyr trydan (gan anwybyddu unrhyw ddefnydd ar gyfer derbyn taliadau am ddefnyddio trydan);

(b) fel adeiladau swyddfa person dynodedig, os na fydd yr adeiladau hynny ar dir gweithredol y person hwnnw; neu

(c) at y naill a'r llall o'r dibenion blaenorol; ac

mae i “cyflenwr trydan cyhoeddus” yr un ystyr ag sydd i “public electricity supplier” yn adran 6(9) o Ddeddf Trydan 1989([1]).

([1]) 1989 p.29.

# RHAN 3

## HEREDITAMENTAU NWY

*Person dynodedig*

BG plc

*Hereditamentau perthnasol*

Hereditamentau (ar wahân i hereditamentau a eithrir) a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion BG plc yn gweithredol fel cludwr nwy cyhoeddus

Yn y Rhan hon—

ystyr "hereditament a eithrir" yw hereditament sy'n cynnwys tir ac adeiladau a ddefnyddir neu, os nad feddiennnir hwy, y bwriedir eu defnyddio yn gyfan gwbl neu'n bennaf

(a) er mwyn gwneuthur peiriannau a ffitiadau nwy;

(b) fel cyfleusterau storio pwysedd uchel neu gyfleusterau storio nwy naturiol hylifedig neu gyfleusterau a ddefnyddir neu sydd ar gael i'w defnyddio mewn cysylltiad â storio alltraeth;

(c) fel adeiladau swyddfa, pan nad yw'r adeiladau ar dir gweithredol BG plc; neu

(ch) at fwy nag un o'r dibenion blaenorol, ac

mae i "cludwr nwy cyhoeddus" yr un ystyr ag sydd i "public gas transporter" yn Rhan 1 o Ddeddf Nwy 1986(**2**); acmae cyfeiriadau i BG plc yn gyfeiriadau at y cwmni sy'n dwyn yr enw hwnnw ar 9 Tachwedd 1999.

# RHAN 4

## HEREDITAMENTAU RHEILFFYRDD

*Person dynodedig*

Railtrack plc

*Hereditamentau perthnasol*

Yr hereditamentau a leolir yng Nghymru ac a ddisgrifir yn rheoliad 3(3) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994

# RHAN 5

## HEREDITAMENTAU TELATHREBU

*Person dynodedig*

British Telecommunications plc

*Hereditamentau perthnasol*

Yr hereditament a ddisgrifir yn rheoliad 4(1) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994

*Person dynodedig*

Mercury Communications Limited

*Hereditamentau perthnasol*

(**2**) 1986 p.44.

Yr hereditament a ddisgrifir yn rheoliad 4(2) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994

*Person dynodedig*

Racal Telecommunications Limited

*Hereditamentau perthnasol*

Yr hereditament a ddisgrifir yn rheoliad 4(3) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994

*Person dynodedig*

Energis Communications Limited

*Hereditamentau perthnasol*

Yr hereditament a ddisgrifir yn rheoliad 4(4) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994

*Person dynodedig*

AT&T(UK) Limited

*Hereditamentau perthnasol*

Yr hereditament a ddisgrifir yn rheoliad 4(5) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994

# RHAN 6

## HEREDITAMENTAU CYFLENWI DŴR

*Person Dynodedig*

Dee Valley Water plc

Dŵr Cymru Cyfyngedig

North West Water Limited

Severn Trent Water Limited

*Hereditamentau perthnasol*

Hereditamentau (ar wahân i hereditamentau a eithrir) a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion ymgymerwr dŵr o dan Ran III o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991(**3**), neu at ddibenion ategol

Yn y rhan hon ystyr "hereditament a eithrir" yw hereditament sy'n cynnwys tir ac adeiladau a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf—

(a) at wneud, storio, gwerthu, arddangos neu ddangos cyfarpar neu atodion at ddefnydd defnyddwyr dŵr (gan anwybyddu unrhyw ddefnydd ar gyfer derbyn taliadau am ddefnyddio dŵr neu wasanaethau carthffosiaeth); neu

(b) fel adeiladau swyddfa a feddiennir gan berson dynodedig, os na fydd yr adeiladau hynny ar dir gweithredol y person hwnnw; neu

(c) at y naill a'r llall o'r dibenion blaenorol.

(**3**) 1991 p.56.

# RHAN 7

## PIBLINELLAU HIRBELL

*Person dynodedig*

Mainline Pipelines Limited

*Hereditamentau perthnasol*

Piblinellau traws-gwlad (o fewn ystyr Deddf Piblinellau 1962(**4**)) a leolir o fewn ardal mwy nag un awdurdod bilio.

# RHAN 8

## DEHONGLI

Yn yr Atodlen hon—

ystyr “adeiladau swyddfa” yw unrhyw hereditament a adeiladwyd neu a addaswyd yn swyddfeydd neu at ddibenion swyddfa, neu a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y dibenion hynny;mae “dibenion swyddfa” yn cynnwys dibenion gweinyddu a gwaith clerigol a thrin arian; ac mae “gwaith clerigol” yn cynnwys ysgrifennu, cadw cyfrifon, teipio, ffeilio, dyblygu, trefnu papurau neu wybodaeth neu gyfrif (boed â llaw, â pheiriant neu â chyfrwng electronig), tynnu lluniau a golygu deunydd ar gyfer ei gyhoeddi;

ystyr “tir gweithredol”, mewn perthynas â pherson dynodedig yw'r tir a ddefnyddir at ddibenion cynnal ymgymeriad y person hwnnw, sef tir, o ran ei natur a'i leoliad, sydd yn fwy cymaradwy â thir a ddefnyddir at ddibenion ymgymeriadau statudol (o fewn ystyr Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**5**)) nag â thir yn gyffredinol;Ac mae unrhyw gyfeiriad at hereditamentau a ddefnyddir at unrhyw bwrpas yn cynnwys cyfeiriad at hereditamentau nas defnyddir ond, mewn perthynas â hwy, ymddengys y cânt eu defnyddio at ddiben o'r fath pan ddefnyddir hwy nesaf.

(**4**) 1962 p.58.
(**5**) 1990 p.8.